@chwaraeonrhct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Annog plant i wneud rhagor o ymarfer corff - Ysgol Gynradd Cwm Clydach

Bob blwyddyn mae ysgolion yn Rhondda Cynon Taf yn cael eu hannog i wneud cais i dderbyn cyllid gan Gronfa Ysgolion Chwaraeon Rhondda Cynon Taf. Mae'r gronfa yn cefnogi ysgolion i ddatblygu prosiectau newydd sydd â'r nod o annog rhagor o blant i fod yn fwy heini, yn fwy aml. Yn ystod blwyddyn academaidd 22/23 cafodd cyllid gwerth £18,000 ei ddyfarnu i 57 o ysgolion. Cafodd Ysgol Gynradd Cwm Clydach £242 er mwyn sefydlu clwb ar ôl ysgol newydd i herio'r disgyblion o'r enw 'Clwb Chwarae'.

Cyn gwneud cais, siaradodd yr athrawon gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 i ddatblygu prosiect. Ar y cyd, fe benderfynon nhw sefydlu clwb aml-chwaraeon newydd. Roedden nhw wedi penderfynu sefydlu clwb aml-chwaraeon oherwydd roedden nhw eisiau rhoi cynnig ar ystod o chwaraeon a gweithgareddau, nid dim ond y chwaraeon traddodiadol sydd fel arfer yn cael eu cynnig. Yn ogystal â gwella'u sgiliau chwaraeon, roedd y plant yn awyddus i ddatblygu'u sgiliau Cymraeg felly aethon nhw ati i sefydlu 'Clwb Cymraeg' er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg wrth gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau.

Defnyddiodd yr ysgol yr arian i brynu offer newydd er mwyn datblygu sesiynau a fyddai'n datblygu sgiliau cydsymud y disgyblion, eu sgiliau sylfaenol a'u sgiliau echddygol bras. Dechreuodd y sesiynau ac roedd llawer o gyfleoedd gan y disgyblion i ymarfer eu sgiliau Cymraeg drwy chwarae gemau llawn hwyl a oedd yn ennyn eu diddordeb. Roedd modd i'r disgyblion gydweithio ag eraill er mwyn meithrin perthnasoedd newydd a magu'u hyder. Cafodd disgyblion blwyddyn 6 y cyfle i arwain elfennau o'r clwb i wella'u sgiliau arwain a'u hyder.

Roedd yr offer newydd hefyd yn cael eu defnyddio yn ystod amser chwarae, ynghyd â gemau iard yr ysgol cyfrwng Cymraeg a gafodd eu datblygu gan y Criw Cymraeg. Flwyddyn yn ddiweddarach, mae dwywaith nifer y disgyblion yn mynychu'r 'Clwb Chwarae' ar ôl ysgol.

> "*Roedd gwelliant sylweddol i'w weld yn hyder disgyblion blwyddyn 6 ar ôl derbyn y profiad o arwain gemau a gweithgareddau yn ystod y clwb.*" - Athro

**10** o gyfranogwyr

**100%** yn fwy heini, yn amlach

**100%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

**100%** yn teimlo'n iachach

**60%** yn teimlo'n fwy hyderus

**30** o sesiynau

**100%** yn teimlo'n hapusach

**50%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF